

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A483  
(LLANYMYNECH, POWYS) (GWAHARDD  
CERBYDAU DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A483, neu gerllaw iddi, yn Llanymynech, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4398 hyd at ei chyffordd â'r cyswllt gogleddol â Penyfoel Lane.

Bydd y contractwr yn cadw mynediad at eiddo preswyl a leolir o fewn y darn o'r briffordd sydd ar gau.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A483 tua'r de i Gylchfan Tal-y-bont, yr A458 tua'r dwyrain i Gylchfan Churncote a'r A5 tua'r gogledd-orllewin i ailymuno â'r A483 tua'r de yng Nghroesoswallt.

Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r de fynd ar yr A483 tua'r gogledd i Groesffordd Llyncllys, yr A495 tua'r de-orllewin i Ystum Colwyn, yr A490 tua'r de-ddwyrain i Gylchfan Raven Square, y Trallwng, y B4381 Brook Street tua'r dwyrain a'r A458 Salop Road tua'r gogledd i ailymuno â'r A483 yng Nghyffordd Flash, y Trallwng.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 17 Ebrill 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (19:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 17 a 20 Ebrill 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A483 TRUNK ROAD (LLANYMYNECH,  
POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF  
VEHICLES) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is required to undertake works on or near the A483 trunk road at Llanymynech, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A483 trunk road that extends from its junction with the B4398 to its junction with the northern tie-in of Penyfoel Lane.

The contractor will maintain access to residential properties situated within the closed section of highway.

The alternative route for northbound vehicles is via the southbound A483 to Buttington Roundabout, eastbound A458 to Churncote Roundabout and north-westbound A5 to rejoin the southbound A483 at Oswestry.

Southbound vehicles should travel via the northbound A483 to Llyncllys Crossroads, south-westbound A495 to Ystum Colwyn, south-eastbound A490 to Raven Square Roundabout, Welshpool, eastbound B4381 Brook Street and northbound A458 Salop Road to rejoin the A483 at the Flash Junction, Welshpool.

The Order comes into force on 17 April 2023. The temporary prohibition is expected to operate overnight (19:00 – 06:00 hours) from 17 – 20 April 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government